**Cyfeirnod:** IR894

**Dyddiad cyhoeddi:** 19 Hydref 2023

# Gwybodaeth am recriwtio

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth ar 21 Medi 2023 pan wnaethoch ofyn am wybodaeth am recriwtio.

Er hwylustod, rwyf wedi atgynhyrchu eich cwestiynau isod a nodi ein hymatebion cyfatebol. Noder ein bod dal wrthi'n coladu'r wybodaeth i ateb cwestiwn 4 ac ail ran cwestiwn 11, a byddwn yn ysgrifennu eto ynghylch y pwyntiau hynny cyn gynted â phosibl.

**Cwestiwn 1. Sawl cyflogai parhaol newydd a ymunodd â'ch sefydliad yn 2022?**

16 aelod o staff parhaol.

**Cwestiwn 2. Sawl cyflogai parhaol newydd ddaeth drwy ddarparwyr allanol yn 2022?**

Dim.

**Cwestiwn 3. Sawl aelod tîm sy'n gweithio yn eich Tîm Recriwtio?**

Nid oes gennym ni dîm pwrpasol. Mae saith aelod o staff y tîm Adnoddau Dynol yn cymryd rhan pan fo recriwtio'n digwydd, gan fynd i mewn ac allan o bob cam o'r broses.

**Cwestiwn 4. Faint o amser ydych chi'n ei gymryd i gyflogi staff, o'r cam hysbysebu hyd y cam cynefino?**

[Yn disgwyl am yr wybodaeth angenrheidiol]

**Cwestiwn 5. Beth oedd eich cyfradd gadael cyn gorffen yn 2022?**

Gadawodd 31 aelod o staff rhwng 01/01/2022 a 31/12/2022, mae hyn yn amrywio o ymddiswyddo i ddiwedd contract (cyfnod penodol, graddedig, neu brentis). 8.6% oedd y gyfradd trosiant

**Cwestiwn 6. Beth yw eich cost gyfartalog fesul penodiad (gan gynnwys denu a sgrinio) ar gyfer 2022?**

Nis cofnodwyd.

**Cwestiwn 7. Faint wnaethoch chi ei wario gyda darparwyr allanol ar gyfer recriwtio parhaol yn 2022?**

Sero

**Cwestiwn 8. Sawl gweithiwr interim/dros dro/contractwr asiantaeth unigryw wnaethoch chi eu defnyddio yn 2022?**

9

**Cwestiwn 9. Faint wnaethoch chi ei wario ar weithwyr interim/dros dro/contractwyr asiantaeth yn 2022?**

£365,548

**Cwestiwn 10. A ydych chi'n cyflawni eich targedau amrywiaeth?**

Nid ydym wedi pennu targedau amrywiaeth fel y cyfryw, ond rydym ar y trywydd iawn o ran ein cynnydd mewn perthynas â'r mentrau yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

**Cwestiwn 11. Sawl ymgeisydd sydd wedi ymgeisio am swydd yn 2022? Beth yw cyfradd eich ymgeiswyr sy'n tynnu eu ceisiadau yn ôl?**

Cynhaliwyd 33 o ymgyrchoedd recriwtio rhwng 01/01/2022 a 31/12/2022. Ymgeisiodd cyfanswm mewnol/allanol o 341 o ymgeiswyr am y 33 o swyddi rhwng 01/01/2022 a 31/12/2022.

**Cwestiwn 12. Pa systemau ydych yn eu defnyddio ar gyfer eich proses recriwtio parhaol?**

ITrent HR a system meddalwedd Payroll.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau am y modd yr wyf wedi ymdrin â’ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,

Swyddog Gwybodaeth

**Dyddiad cyhoeddi:** 31 Hydref 2023

# Gwybodaeth am recriwtio

Yn dilyn fy e-bost blaenorol isod, dyddiedig 19 Hydref 2023, rwyf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'm hymateb ynghylch cwestiynau 4 ac 11.

**Cwestiwn 4. Faint o amser ydych chi'n ei gymryd i gyflogi staff, o'r cam hysbysebu hyd y cam cynefino?**

Cynhelir cyfweliadau fel arfer bythefnos ar ôl i'r cyfnod recriwtio ddod i ben, a chynigir y swydd i ymgeiswyr (2-4 diwrnod ar ôl i'r holl waith recriwtio ddod i ben).

Oherwydd cyfnodau rhybudd contractiol amrywiol, dehonglir yr 'amser a gymerir i gyflogi' fel yr amser pan fo swydd yn cael ei chynnig.

**Cwestiwn 11. Beth yw cyfradd eich ymgeiswyr sy'n tynnu eu ceisiadau yn ôl?**

Nid ydym yn cadw data am nifer yr ymgeiswyr sy'n tynnu eu ceisiadau yn ôl.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau am y modd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Swyddog Gwybodaeth